

Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM

# Arolygiad thematig HMICA o Lysoedd Ieuenctid

Gweithredu Canllawiau Arferion Da Llysoedd  
Ieuenctid 2001

Cyhoeddwyd ym Mawrth 2007

**HMICA**  
HM Inspectorate of Court Administration



# Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM

Arolygiaeth statudol, annibynnol a ffurfiwyd gan Ddeddf y Llysoedd 2003 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yw HMICA. Ein dyletswydd yw:

- arolygu ac adrodd i'r Arglwydd Ganghellor am y system sy'n cynnal busnes y llysoedd (Llys y Goron, llysoedd sirol a llysoedd ynadon) a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y llysoedd hynny;
- cyflawni unrhyw swyddogaethau neilltuol eraill a allai gael eu pennu mewn perthynas â'r llysoedd a restrwyd

Nid oes gan HMICA hawl i arolygu pobl sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu'n ymarfer unrhyw ddisgresiwn barnwrol.

## Diffiniad o arolygiad

Mae HMICA wedi ymrwmo i'r diffiniad o arolygiad a geir ym mholisi'r Llywodraeth ar Arolygu (*The Government's Policy on Inspection*) (2003) sy'n nodi mai adolygiad allanol yw arolygiad ac y dylai fod:

- yn annibynnol ar ddarparwyr gwasanaeth;
- yn rhoi sicrwydd, i Weinidogion ac i'r cyhoedd, bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn modd diogel a phriodol;
- yn cyfrannu tuag at wella'r gwasanaethau hynny;
- yn adrodd yn gyhoeddus; ac
- yn cynnig gwerth am arian.

Mae HMICA hefyd wedi ymrwmo i'r deg egwyddor ar gyfer arolygu sydd i'w gweld yn yr un polisi. Mae'r rhain yn nodi y dylai arolygiad o wasanaethau cyhoeddus gyflawni'r canlynol:

- ceisio sicrhau gwelliannau;
- canolbwyntio ar ganlyniadau;
- edrych ar bethau o safbwynt defnyddwyr;
- bod yn gymesur â risg;
- annog rheolwyr i asesu eu hunain;
- defnyddio tystiolaeth ddiuedd, lle bynnag y bo modd;
- datgelu'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dyfarniad;
- bod yn agored am y prosesau sy'n cael eu defnyddio;
- ystyried gwerth am arian, gan gynnwys gwerth am arian y corff arolygu, a
- dysgu o brofiad yn barhaus.

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn drwy gysylltu â:

HMICA Central Support Team  
8th Floor, Millbank Tower  
Millbank  
Llundain SW1P 4QP

Ffôn: 020 7217 4355  
Ffacs: 020 7217 4357

Neu drwy'r wefan yn <http://www.hmica.gov.uk>

# Cynnwys

## Rhagair y Prif Arolygydd

Crynodeb gweithredol	1
Adran 1 Cyflwyniad	5
Adran 2 Ymgysylltu effeithiol â diffynyddion a'u rhieni neu eu gofalwyr	9
Adran 3 Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da	15
Adran 4 Prosesau llys mwy agored er mwyn annog ffydd y gymuned yn y Llysoedd Ieuentid	21
Adran 5 Ceir systemau effeithiol i gefnogi'r Llysoedd Ieuentid a darparu amgylchedd diogel i bob defnyddiwr	27

## Atodiadau

Atodiad A Ymatebion GLIEM i argymhellion HMICA	35
Atodiad B Fframwaith a methodoleg yr arolygiad	39
Atodiad C Llysoedd Ieuentid yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr arolygiad hwn	43
Atodiad D Staff HMICA a fu'n ymwneud â'r arolygiad hwn	45
Atodiad E Canllawiau Arferion Da Llysoedd Ieuentid 2001	47



# Rhagair y Prif Arolygydd

Fel rhan o'n cylch arolygu ar gyfer 2006/07, roeddem yn falch o dderbyn gwahoddiad gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i gynnal arolygiad thematig o Lysoedd Ieuenctid y gellid ei ddefnyddio fel sail ar gyfer adolygiad o'r Canllawiau Arferion Da a gyhoeddwyd ar gyfer Llysoedd Ieuenctid yn 2001 (*Youth Court Good Practice Guide*).

Gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i'r system cyfiawnder ieuenctid yn sgil Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999. Paratowyd Canllawiau Arferion Da 2001 ar gyfer y Llysoedd Ieuenctid ar y cyd gan y Swyddfa Gartref ac Adran yr Arglwydd Ganghellor fel y gelwid hi ar y pryd (yr AMC erbyn hyn) er mwyn helpu'r Llysoedd Ieuenctid i gyfrannu'n effeithiol tuag at system cyfiawnder ieuenctid ddiwygiedig. Rhan o deitl y Canllawiau Arferion Da yw 'The Changing Culture of the Youth Court' ac rwyf yn fodlon bod diwylliant y Llysoedd Ieuenctid, yn gyffredinol, wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yn sicr, canfu'r Arolygwyr fod diffynyddion ifanc erbyn hyn yn ganolog iawn i'r gweithdrefnau a bod iaith ac arddull proses y llys wedi newid er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Crëwyd cryn argraff arnom gan y gwaith caled a'r ymroddiad a ddangoswyd gan bawb a oedd yn ymwneud â'r Llysoedd Ieuenctid, a gwelodd yr Arolygwyr enghreifftiau gwych o hyn ymhlith staff y llysoedd drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom hefyd feysydd lle gellid gwella'r gwaith cadarnhaol hwn ac rydym wedi gwneud argymhellion ac awgrymiadau i GLIEM mewn perthynas â hyn, er enghraifft canfod pobl ifanc sydd ag anawsterau neu anabledau dysgu yn gynnar.

Mae rhan bwysig o'r Canllawiau Arferion Da'n ymwneud â chynllun y Llys Ieuenctid. Mae llawer o Ardaloedd wedi mabwysiadu cynllun anffurfiol neu led-ffurfiol fel yr awgrymwyd yn y Canllawiau, ond mae rhai wedi cadw ystafelloedd ffurfiol y Llysoedd Ieuenctid. Yn ddiddorol iawn, canfu'r Arolygwyr fod modd cael cyfathrebu da beth bynnag yw cynllun y llys ac mai'r elfen allweddol yw effeithiolrwydd y sawl sy'n cyfathrebu yn hytrach na'r cynllun.

Un maes penodol lle gwelsom nad oedd y Canllawiau Arferion Da wedi cael llawer o effaith yn y Llysoedd Ieuenctid oedd maes 'prosesau llys mwy agored'. Gwelsom ddiffyg consensws ynglŷn â buddioldeb neu fanteision Llysoedd Ieuenctid mwy agored ac rydym wedi awgrymu y dylid adolygu'r rhan hon o'r canllawiau yng ngoleuni hyn.

Yn ychwanegol at elfennau'r Canllawiau Arferion Da, edrychodd yr Arolygwyr a oedd systemau effeithiol wedi eu sefydlu er mwyn cefnogi'r Llys Ieuenctid a darparu amgylchedd diogel i holl ddefnyddwyr y llysoedd. Un canfyddiad sy'n peri pryder dan y maen prawf hwn yw'r diffyg eglurder ynglŷn â chyfrifoldeb am bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu neu eu hanfon i lety diogel o eiddo awdurdod lleol tra bônt yn adeiladau'r llys. Mae'r ansicrwydd o ganlyniad i hyn yn rhoi gŵp o bobl ifanc sy'n agored iawn i niwed mewn perygl ac rwy'n gwneud argymhelliad brys i GLIEM yn y cyswllt hwn.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r arolygiad hwn, yn enwedig staff GLIEM a fu mor groesawgar tuag at ein harolygwyr a'r llu ynadon a Barnwyr Rhanbarth a aeth i drafferth i ymateb i'n cais yn gofyn am eu barn.

A handwritten signature in black ink that reads "Eddie Bloomfield". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

**Eddie Bloomfield**

*Prif Arolygydd Gweinyddiaeth Llysoedd EM*

Mawrth 2007

# Crynodeb gweithredol

- 1 Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ym Medi a Hydref 2006 ac ymwelwyd ag 21 o Lysoedd Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Pwrpas yr arolygiad oedd gwerthuso'r modd y gweithredir y Canllawiau Arferion Da a gyhoeddwyd ar gyfer Llysoedd Ieuenctid yn 2001. Casglwyd tystiolaeth drwy wybodaeth ysgrifenedig ymlaen llaw, sesiynau yn gwyllo llysoedd ar waith a chyfweiliadau gyda staff, diffynyddion a'u rhieni neu eu gofalwyr, a rhanddeiliaid eraill. Nid yw'r adroddiad hwn yn gwneud sylwadau ar benderfyniadau barnwrol na materion barnwrol eraill.
- 2 Crynhoir canfyddiadau gweinyddol yn yr adroddiad ar sail pedwar maen prawf:
  - Ymgysylltu effeithiol â diffynyddion a'u rhieni neu ofalwyr.
  - Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da.
  - Prosesau llys mwy agored er mwyn annog ffydd y gymuned yn y Llysoedd Ieuenctid.
  - Ceir systemau effeithiol i gefnogi'r Llysoedd Ieuenctid a darparu amgylchedd diogel i bob defnyddiwr.

## Ymgysylltu effeithiol â diffynyddion a'u rheini neu eu gofalwyr

- 3 Maes barnwrol yn bennaf yw hwn; cyfyngir dyfarniadau i agweddau gweinyddol yn unig. Yn gyffredinol, mae cyflwyno'r Canllawiau Arferion Da wedi arwain at ddiwylliant o ymgysylltu â diffynyddion a'u rhieni neu eu gofalwyr. Mae pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr yn cael eu cynnwys yn gyffredinol ym mhroses y llys ac yn cael eu cynorthwyo gan staff y llys ac asiantaethau eraill i ddeall gweithdrefnau ar y diwrnod. Fodd bynnag, gellid gwella'r gwaith cadarnhaol hwn yn y rhan fwyaf o'r llysoedd drwy'r camau canlynol:
  - trefniadau er mwyn canfod pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu, a chanllawiau i staff yn nodi sut i ddelio gyda phobl ifanc o'r fath
  - rhoi gwybodaeth i ddiffynyddion, a'u rhieni neu eu gofalwyr, i'w paratoi ar gyfer y llys a sicrhau eu bod yn deall rôl pob un sy'n bresennol yn ystafell y llys.

Mae'r bylchau hyn yn y trefniadau a'r ddarpariaeth yn golygu ei bod yn bosibl nad yw proses y llys yn cael ei haddasu neu ei hwyluso'n briodol er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn deall yn iawn beth sy'n digwydd.

- 4 Nid oes canllawiau ynglŷn â darparu cyfieithwyr i rieni neu ofalwyr sy'n mynychu Llys Ieuenctid. Mae hyn yn golygu bod posibilrwydd y gallai pobl gael eu defnyddio mewn modd amhriodol i gyfieithu gweithdrefnau llys.

## Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da

- 5 Canfu'r Arolygwyr fod cyfathrebu da yn ystafell y llys yn dibynnu mwy ar y person sy'n cyfathrebu nag ar gynllun yr ystafell. Mae cadw Mainc ychydig yn uwch mewn rhai ystafelloedd llys, ynghyd â chynllun lled-ffurfiol wedi gweithio'n dda, gan alluogi pob un o'r partïon i gymryd rhan a chreu cydbwysedd da rhwng anffurfioldeb, diogelwch a pharch i broses y llys.

## Prosesau llys mwy agored yn annog ffydd y gymuned yn y Llysoedd Ieuencid

- 6 Prin yw'r dystiolaeth bod prosesau llys yn fwy agored o ganlyniad i gyflwyno'r Canllawiau Arferion Da. Nid oes llawer o gyfathrebu allanol i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r Llys Ieuencid gan y gymuned ehangach, ac eithrio rhai diwrnodau agored yn y llysoedd, sy'n cynnwys treialon ffug mewn Llysoedd Ieuencid. Fodd bynnag, ni chanfuwyd tystiolaeth o unrhyw sylwedd o'r cysylltiad rhwng prosesau llys mwy agored a chynnydd yn ffydd y gymuned yn y Llysoedd Ieuencid. Nid oes llawer o gyfathrebu rhagweithiol rhwng Llysoedd Ieuencid a'r cyfryngau, ac mae ceisiadau i godi cyfyngiadau adrodd yn anghyffredin.
- 7 Yn anaml iawn y bydd dioddefwyr, nad ydynt o reidrwydd yn dystion, yn mynychu'r Llys Ieuencid. Derbynnir y gall asiantaethau eraill fod yn gyfrifol am roi gwybodaeth angenrheidiol i ddioddefwyr am wrandawiadau – ond mae cred gyffredinol ymhlith asiantaethau cyfiawnder Ieuencid bod Llysoedd Ieuencid yn llysoedd caeedig ac mae tuedd i gamddeall yn aml a chymryd bod hyn hefyd yn cau dioddefwyr allan. Ni welsom llawer o dystiolaeth bod Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM) yn gwneud llawer i geisio newid y syniad hwn. Ar yr adegau prin hynny pan fo dioddefwyr yn mynychu'r llys, mae'r llys yn eu hystyried ac yn cynnig cymorth iddynt.

## Ceir systemau effeithiol i gefnogi'r Llysoedd Ieuencid a darparu amgylchedd diogel i bob defnyddiwr

- 8 Ceir systemau gweinyddol effeithiol yn GLIEM i gefnogi'r Llysoedd Ieuencid ym mhob un o'r Ardaloedd a arolygwyd. Yn gyffredinol, mae gweinyddiaeth y llysoedd yn gweithio'n dda gdag asiantaethau perthnasol i symud achosion yn eu blaenau'n briodol.
- 9 Mae'r manau aros ar gyfer pobl ifanc ar wahân i fannau aros oedolion yn y rhan fwyaf o'r llysoedd, er bod lleoliad cyfleusterau eraill sy'n cael eu rhannu yn gallu effeithio rhywfaint ar hyn. Mae'r cyfleusterau ar gyfer cadw diffynyddion ifanc yn y ddalfa'n amrywio o annerbyniol i dda ac mae cryn dipyn o ansicrwydd yn y Llysoedd Ieuencid ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am bobl ifanc, sydd wedi cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel o eiddo awdurdod lleol, tra bônt ar safle'r llys yn aros am rywun i'w hebrwng. Mae hyn wedi golygu bod pobl ifanc agored i niwed yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain ac mewn ystafelloedd anaddas.
- 10 Nid yw cyfleusterau cyswllt-fideo carchardai yn cael eu nodi'n aml fel dewis posibl ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa sy'n gorfod teithio'n bell i'r llys. Mae hyn ambell waith oherwydd diffyg cyfarpar, ond y rheswm weithiau yw bod y rheolau ar gyfer defnyddio cyfarpar o'r fath wedi cael eu camddeall.
- 11 Nid yw argymhelliad Ymchwiliad Mubarek<sup>1</sup>, ynglŷn â dogfennau i'w hanfon gyda gwarantau cadw yn y ddalfa, wedi ei weithredu'n ymarferol ym mhob Llys Ieuencid.
- 12 Mae diogelwch pobl ac eiddo mewn llawer o Lysoedd Ieuencid yn annigonol, ac mae asesu risg yn wan. Rydym wedi rhoi manylion am hyn mewn atodiad cyfrinachol i GLIEM ac wedi gofyn iddynt edrych ar hyn fel rhan o'u polisi Diogelu Pobl ac Eiddo (*Safe and Secure*).

---

<sup>1</sup> Adroddiad Ymchwiliad Zahid Mubarek, 29 Mehefin 2006.

# Argymhellion ac awgrymiadau i GLIEM

## Argymhelliad 1

Bod GLIEM yn sicrhau bod gwybodaeth briodol cyn achos llys, sy'n paratoi diffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn ddigonol ar gyfer ymddangos gerbron llys, ar gael ac wedi ei dosbarthu'n effeithiol.

## Argymhelliad 2

Bod GLIEM yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod proses y llys yn cael ei hwyluso a'i haddasu mewn modd priodol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu drwy:

- hwyluso'r gwaith o ganfod pobl ifanc o'r fath yn gynnar ym mhroses y llys, a
- sicrhau bod staff llys yn meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ymateb yn briodol.

## Argymhelliad 3

Bod GLIEM, yn achos pobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel o eiddo awdurdod lleol, yn egluro pwy sy'n gyfrifol am y person ifanc tra bo'n aros i gael ei hebrwng o'r llys, ac yn sicrhau bod ei gyfrifoldebau'n cael eu cyflawni o hyd.

## Argymhelliad 4

Bod GLIEM yn sicrhau bod pob Llys leuentid wedi gweithredu argymhelliad Ymchwiliad Mubarek ynglŷn â darparu gwybodaeth benodol gyda'r warant cadw yn y ddalfa i'r Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion.

## Argymhelliad 5

Bod GLIEM yn sicrhau bod pob Llys leuentid yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi Diogelu Pobl ac Eiddo (*Safe and Secure*).

## Awgrym 1

Bod GLIEM yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r trefniadau i gael cyfieithwyr ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n mynychu llys gyda diffynyddion ifanc, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r llys yn cael eu cyfieithu'n briodol.

## Awgrym 2

Bod GLIEM yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol y gallant wneud cais i fynychu'r Llys leuentid, ac yn ei gwneud yn haws iddynt fynychu'r llys lle bynnag y bo modd.

### Awgrym 3

Bod GLIEM yn gweithio gyda'r farnwriaeth i adolygu'r rhan o'r Canllawiau Arferion Da sy'n ymwneud â chysylltu â'r wasg a phrosesau llys mwy agored.

### Awgrym 4

Bod GLIEM yn gweithio gyda'r farnwriaeth i adolygu ac egluro'r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio cyswllt-fideo carchardai ar gyfer gwrandawriadau cyn-treial yn y Llys Ieuencid.

# Adran 1

## Cyflwyniad

- 1.1 Prif nod y 'system cyfiawnder ieuenctid' fel sy'n cael ei nodi yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 – gan gynnwys llysoedd, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, y gwasanaeth prawf a'r heddlu – yw “*atal plant a phobl ifanc rhag troseddu*”.
  - 1.2 Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r diffynyddion sydd dan 18 oed yn y Llys Ieuenctid gan ynadon sydd wedi eu hyfforddi'n benodol neu gan Farnwr Rhanbarth<sup>2</sup>.
  - 1.3 Ni fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei roi ar brawf mewn Llys Ieuenctid os yw wedi ei gyhuddo o: lofruddiaeth neu ddynladdiad (mae'r achosion hyn bob amser yn cael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron); trosedd difrifol iawn, fel ysbeilio, a'r Llys Ieuenctid yn teimlo ei bod yn bosibl y bydd angen pwerau dedfrydu cryfach Llys y Goron; neu drosedd ar y cyd ag oedolyn - gwrandewir yr achosion hyn yn Llys ynadon yr oedolion neu yn Llys y Goron.
  - 1.4 Mae llawer o wahaniaethau pwysig rhwng llysoedd oedolion a llysoedd ieuenctid, er enghraifft, yn wahanol i lysoedd ynadon oedolion a Llys y Goron, sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd, mae'r gyfraith yn cyfyngu'r hawl i gael mynediad i Llys Ieuenctid i:
    - aelodau a swyddogion y llys
    - y ddwy ochr sy'n ymwneud â'r achos a'u cynrychiolwyr cyfreithiol
    - tystion
    - pobl eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos, ac
    - aelodau o'r cyfryngau (gall y cyfryngau adrodd am yr achos ond fel arfer ni allant ddatgelu manylion unrhyw berson ifanc sy'n rhan o'r achos).
- Fodd bynnag, gall y llys ofyn yn benodol i bobl eraill fod yn bresennol.
- 1.5 Ceir gwahanol drefniadau ar gyfer tyngu llw gan fod gwahanol ddisgwyliadau o ran profiad a dealltwriaeth y rhai sy'n cymryd rhan mewn achosion ieuenctid.
  - 1.6 Mae'n bosibl y gofynnir i riant neu warcheidwad fynychu llys gyda diffynyddion ifanc, a **rhaid** iddynt fynychu'r llys os yw'r diffynnydd dan 16 oed.
  - 1.7 Rhaid cadw plant a phobl ifanc ar wahân i oedolion sydd wedi eu cyhuddo o unrhyw drosedd tra bônt yng ngorsafoddedd yr heddlu, yn y llys neu'n cael eu cludo o'r naill safle i'r llall, oni bai bod yr oedolyn yn berthynas neu'n berson sy'n cael ei gyhuddo ar y cyd.
  - 1.8 Cyhoeddwyd y Canllawiau Arferion Da ar gyfer Llysoedd Ieuenctid ym Mawrth 2001 yn dilyn Papur Gwyn y Llywodraeth, *No More Excuses – A New approach to Tackling Youth Crime In England and Wales* (Cm 3809). Bwriad y newidiadau a amlinellwyd yn y Papur Gwyn, ac a basiwyd drwy ddeddfwriaeth<sup>3</sup>, oedd sicrhau y byddai'r system cyfiawnder ieuenctid yn effeithlon

<sup>2</sup> Mae Barnwr Rhanbarth, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, yn golygu Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon).

<sup>3</sup> Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 (sydd wedi'u cydgrynhoi bellach yn Neddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000).

ac yn effeithiol, y byddai ganddi bwrpas amlwg – sef atal pobl ifanc rhag troseddu – ac y byddai gan y cyhoedd a phob un a fyddai'n dod i gysylltiad uniongyrchol â hi bob ffydd ynddi. Roedd y Canllawiau Arferion Da'n derbyn bod y newidiadau deddfwriaethol yn drobywnt ac yn nodi y byddai datblygu Llys Ieuencid mwy effeithiol mewn system cyfiawnder ieuencid ddiwygiedig yn gyfraniad grymus i'r system honno.

- 1.9 Cyhoeddwyd y Canllawiau Arferion Da ar gyfer y Llysoedd Ieuencid ar y cyd gan y Swyddfa Gartref ac Adran yr Arglwydd Ganghellor, fel yr oedd ar y pryd, yn dilyn ymgynghoriad gyda phartneriaid barnwrol a phartneriaid eraill. Roedd y canllawiau'n dwyn ynghyd yr arferion da a ddatblygwyd yn ystod prosiect peilot ac yn gwneud nifer o awgrymiadau i Lysoedd Ieuencid, yn seiliedig ar brofiad y prosiect<sup>4</sup>.
- 1.10 Mae GLIEM wedi penderfynu, bum mlynedd ar ôl gweithredu'r Canllawiau Arferion Da, ei bod yn bryd iddynt gael eu hadolygu. Gwahoddwyd HMICA i gynnal arolygiad yn y maes hwn, fel bod modd defnyddio'r canlyniadau fel sail ar gyfer yr adolygiad<sup>5</sup>. Yr un pryd gofynnodd yr uwch farnwriaeth i'r Arolygwyr gasglu a mynegi barn ynadon a chynghorwyr cyfreithiol am agweddau barnwrol ar y Canllawiau Arferion Da.
- 1.11 Yn ystod Medi a Hydref 2006, ymwelwyd ag 21 Llys Ieuencid<sup>6</sup> yng Nghymru a Lloegr, yn y brif ddinas, mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd gwledig. Casglwyd tystiolaeth drwy ddeunyddiau briffio a ddarparwyd gan bob llys, drwy wyllo gweithrediadau yn y llysoedd ac yn ystafelloedd y llysoedd eu hunain, a thrwy gyfweiliadau – gyda staff llys, diffynyddion a'u rhieni neu eu gofawlyr, rhanddeiliaid allanol fel twrneiod a hefyd Ynadon Ieuencid a chynghorwyr cyfreithiol. Yn ychwanegol at hyn, gofynasom am sylwadau gan y cyhoedd drwy osod posteri mewn llysoedd, a thrwy gysylltu â'r wasg a'r cyfryngau. Rhoddwyd adborth ar Lysoedd Ieuencid unigol mewn Ardaloedd GLIEM i Gyfarwyddwyr Ardaloedd, a dosbarthwyd posteri gwybodaeth yn nodi'n prif ganfyddiadau i bob Llys Ieuencid a oedd yn rhan o'r arolygiad hwn.

### **Edrychwyd ar y canlynol yn ystod yr arolygiad:**

Y modd y gweithredwyd Canllawiau Arferion Da 2001 ar gyfer Llysoedd Ieuencid – gweithdrefnau mwy agored, cysylltu'n uniongyrchol â'r troseddwr, adborth ar effeithiolrwydd dedfrydau a lleoliadau llai gwrthwynebus, a yw hyn wedi ei wneud yn llwyddiannus ac a yw'r Llysoedd Ieuencid yn darparu amgylchedd sy'n cefnogi darpariaeth effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- Ymgysylltu effeithiol â diffynyddion a'u rhieni neu eu gofawlyr.
- Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da.
- Prosesau llys mwy agored er mwyn annog ffydd y gymuned yn y Llysoedd Ieuencid.
- Ceir systemau effeithiol i gefnogi'r Llysoedd Ieuencid a darparu amgylchedd diogel i bob defnyddiwr.

Ceir rhagor o fanylion am yr hyn y canolbwyntiwyd arno yn yr arolygiad yn Atodiad B.

---

<sup>4</sup> Codwyd y cefndir o *Youth Court Good Practice Guide 2001 – Introduction, Home Office Research Study 214 – Evaluation of the Youth Court Demonstration Project* – Allen, Crow a Cavadino.

<sup>5</sup> Methodoleg yn Atodiad B.

<sup>6</sup> Manylion yn Atodiad C.

**Mynd i'r Llys am y tro cyntaf – astudiaeth achos – profiad diffynyddion ifanc (wedi ei baratoi o nifer o gyfweiliadau gyda diffynyddion ifanc)**

*“Do'n i ddim wedi bod yn y llys o'r blaen ac ro'n i braidd yn ofnus. A mam hefyd. Gawson ni lythyr yn dweud wrthon ni lle i fynd, a bod angen inni fod yno erbyn 9.00 am. Roedd rhaid inni ddod ar y bws ac roedd gennym ni ryw syniad lle'r oedd y llys, ond doedden ni erioed wedi bod yno. Doedden ni ddim yn sŵr drwy ba ddrws i fynd i mewn.”*

*“Mi welon ni ddyn wrth y drws. Mi ddywedodd o wrthon ni lle i fynd a dweud y dylen ni aros nes byddai'r dywyswraig yn dod aton ni – do'n i ddim yn sŵr beth oedd tywyswraig, ond mi ddywedodd o y bydden ni'n gwybod pwy oedd hi gan y byddai hi'n gwisgo clogyn du fel mae athrawon hen-ffasiwn yn ei wisgo. Mi wnaeth y dyn wrth y drws edrych drwy fag mam ac roedd rhaid inni fynd drwy'r peth maes awyr yna [bwa diogelwch].”*

*“Wnaethon ni ddod o hyd i'r lle aros. Roedd 'na dipyn o bobl yno'n barod. Roedd yr amser aros yn teimlo fel oes. Mi ddaeth y dywyswraig aton ni a gofyn beth oedd fy enw i a rhoi tic wrth fy enw i ar restr. Dywedodd na ddylwn i orfod aros yn hir ac y byddai hi'n dod i fy nôl i a mam pan fyddai'n tro ni'n dod. Gofynnodd a oeddwn i eisiau gweld y cyfreithiwr ar ddyletswydd - mi wnaeth mam ddweud efallai y dylen ni ei weld o, felly mi ddywedodd y dywyswraig y byddai hi'n dweud wrtho.”*

*“Roedd yr amser aros yn ofnadwy. Roedd o'n teimlo fel oes. Roedd o'n waeth na mynd at y deintydd. Ro'n i'n teimlo'n sâl ac eisiau bwyd yr un pryd. Mi aethon ni i chwilio am rywbeth i fwyta. Roedd o'n eithaf pell o'r lle roedden ni'n aros. Roedd rhaid inni gerdded heibio llawer o oedolion oedd yn aros hefyd. Mi gawson ni baced o greision a diod o gôc o beiriant.”*

*“Pan ddaethon ni yn ôl i'r ystafell aros ro'n i'n poeni y byddai rhywun wedi galw'n henwau ni i fynd i mewn, ond holodd mam y dywyswraig ac mi ddywedodd hi fod popeth yn iawn. Daeth dyn aton ni a dweud mai fo oedd y cyfreithiwr ar ddyletswydd. Aethon ni i ystafell fechan efo fo a thrafod pam ro'n i yno. Mi ddywedodd y byddai o yn ystafell y llys efo fi ac y byddai o'n rhoi fy ochr i o'r stori. Yna mi fuon ni'n aros ac yn aros. Doedd 'na fawr o ddim i'w wneud. Ro'n i'n chwarae gêm ar fy ffôn symudol ac mi ddywedodd rhyw ddyn nad o'n i ddim yn cael defnyddio ffôn yn y llys felly roedd rhaid imi ei diffodd hi. Yn y diwedd, mi ddaeth y dywyswraig i'r golwg a dweud bod fy nhro i wedi cyrraedd. Doedd 'na fawr o neb ar ôl yn yr ystafell aros erbyn hynny.”*

*“Wnaethon ni ddilyn y dywyswraig i mewn i ystafell y llys. Doedd hi ddim mor fawr nac mor dywyll ag ro'n i'n meddwl y byddai hi. Ond roedd 'na lawer o bobl yno ac roedden nhw i gyd yn edrych arna i a mam. Ro'n i isio crio. Mi wnaeth y dywyswraig ddangos inni lle i eistedd. Roedden ni'n cael eistedd efo'n gilydd. Bwrdd cyffredin oedd o. Roedd pawb yn eistedd wrth fyrddau cyffredin. Dw i'n meddwl mod i wedi deall y rhan fwyaf o'r hyn oedd yn digwydd. Roedd pobl yn gofyn imi o hyd a oeddwn i'n deall. Roedden nhw'n defnyddio rhai geiriau mawr, nad o'n i ddim yn eu deall nhw'n iawn, ond y rhan fwyaf o'r amser mi fyddai rhywun yn ei ddweud o eto mewn ffordd arall.”*

*“Ro’n i’n poeni braidd ynglŷn â’r holl wahanol bobl oedd yn yr ystafell. Do’n i ddim yn gwybod be oedden nhw i gyd yn ei wneud, er mod i wedi dyfalu pwy oedd rhai ohonyn nhw, fel y barnwyr [ynadon] ac ro’n i’n nabod y cyfreithiwr ar ddyletswydd gan ei fod o wedi siarad efo ni yn gynharach. Ro’n i wedi cymysgu braidd efo’r sefyll a’r eistedd. A mam hefyd. Roedd y barnwyr [ynadon] yn ddigon dymunol ac mi wnaeth yr un yn y canol siarad cryn dipyn efo mam a finnau. Erbyn y diwedd ro’n i’n iawn. Roedd rhaid imi fynd i siarad efo dyn [Tîm Troseddau Ieuenctid] ar ôl hynny ac mi ddywedodd o wrtha i be fyddai’n digwydd nesaf.”*



## Adran 2

Ymgysylltu effeithiol â throseddwyr a'u rhieni neu eu gofalwyr



# Adran 2

## Ymgysylltu effeithiol â diffynyddion a'u rhieni neu eu gofalwyr

Edrychasom ar y canlynol: a ddefnyddir iaith syml yn ystafell y llys ac a oedd diffynyddion a'u rhieni/gofalwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gweithdrefnau; a oedd pob diffynnydd, gan gynnwys y rhai sydd yn y ddalfa, wedi derbyn gwybodaeth cyn y gwrandawriad, yn ystod y gwrandawriad ac ar ei ôl; ac a oedd trefniadau effeithiol yn bodoli er mwyn sicrhau y gallai'r rhai hynny a oedd yn siarad iaith arall ar wahân i Saesneg ddeall y gweithdrefnau a chymryd rhan ynddynt.

### Ymgysylltu uniongyrchol

- 2.1 Mae'r rhan hon o'r Canllawiau Arferion Da yn ymwneud â materion barnwrol yn eu hanfod. Rydym yn adrodd yma ar yr agweddau gweinyddol yn unig. Yn gyffredinol, mae cyflwyno'r Canllawiau Arferion Da wedi arwain at ddiwylliant o ymgysylltu ar y diwrnod gyda diffynyddion a'u rhieni neu eu gofalwyr. Mae pobl ifanc yn ganolog i'r gweithdrefnau ac, yn y rhan fwyaf o'r llysoedd, canfu'r Arolygwyr eu bod hwy a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys. Clywodd yr Arolygwyr am y duedd yn y gorffennol i siarad am bobl ifanc, heb eu cynnwys, a sut y mae hyn wedi newid bellach fel bod pobl yn siarad gyda phobl ifanc yn ystod achosion ac yn gwrandawro arnynt. Gwelsom fod staff y llysoedd yn dangos parch tuag at ddiffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr ac yn dangos llawer o ofal a chydymdeimlad tuag atynt ar y diwrnod.
- 2.2 Yn bwysig iawn, mae staff y llysoedd ac asiantaethau eraill yn cynorthwyo diffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr i ddeall gweithdrefnau ar y diwrnod. Gwelodd yr Arolygwyr enghreifftiau da o'r defnydd o iaith glir yn y rhan fwyaf o'r llysoedd yr ymwelwyd â hwy. Gofynnid i bobl ifanc drwy gydol yr achos a oeddent yn deall beth oedd yn digwydd ac, yn gyffredinol, byddai termau ac ymadroddion cyfreithiol yn cael eu hegluro'n glir os oedd angen. Er enghraifft, roedd yr erlynydd yn cael ei ddisgrifio mewn sawl llys fel "*y person sy'n mynd i ddweud wrthym pam bod yr heddlu wedi'ch arestio*" ac wrth sôn am destimoni tyst dywedid "mae'r person hwn yn mynd i roi ei ochr ef o'r stori".
- 2.3 Credwn y gellid datblygu'r canlyniadau cymeradwy hyn drwy roi sylw i'r materion isod.

#### **Mater 1**

- 2.4 Dywedodd diffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr wrth yr Arolygwyr nad oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth ddefnyddiol o unrhyw ffynhonnell cyn mynychu'r llys. Ni roddwyd unrhyw anogaeth ychwaith i gysylltu'n fuan ynglŷn â'u hanghenion a'u gofynion. Mae hyn yn golygu nad yw pobl ifanc na'u rhieni/gofalwyr yn cael eu paratoi, yn enwedig ar gyfer ymddangosiad cyntaf mewn llys. Yn aml iawn hefyd nid yw'r llys wedi ei baratoi ar gyfer delio gydag unrhyw anawsterau neu anghenion arbennig. Dim ond mewn un llys y gwelsom ymdrech wirioneddol gadarnhaol i ddarparu gwybodaeth ragbaratoawl effeithiol.

## Arfer da

Gwelodd yr Arolygwyr enghraifft wych o wybodaeth baratoawl yn cael ei darparu i ddiffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Mae GLIEM Gorllewin Mersia wedi gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn cynhyrchu pecyn sy'n cynnwys y taflenni isod:

- *Letter to parents/carers.* Beth ddylai rhieni/gofalwyr ei wneud
- *Guilty or Not Guilty.* Bod yn onest a sut i bledio
- *Legal Representation – A Solicitor – Do I need one?* Sut i ddod o hyd i dwnnai
- *Going to Court.* Bod yn barod, anableded neu ofynion arbennig, beth i ddod gyda chi a beth sy'n digwydd ar y diwrnod.

Mae pob taflen yn cynnwys adran 'cwestiynau ac atebion' ac mae'r pecyn cyfan yn pwysleisio pa mor bwysig yw mynychu'r llys ar y dyddiad a'r amser a nodir. Cynigir gwasanaeth cyfieithu hefyd.

## Argymhelliad 1

Bod GLIEM yn sicrhau bod gwybodaeth briodol cyn achos llys, sy'n paratoi ddiffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn ddigonol ar gyfer ymddangos gerbron llys, ar gael ac wedi ei dosbarthu'n effeithiol.

## Mater 2

- 2.5 Nid oes trefniadau pendant er mwyn canfod pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Gwelodd yr Arolygwyr fod y llysoedd yn dibynnu ar asiantaethau eraill, fel yr amddiffyniad neu Dimau Troseddau leuenctid, i roi gwybod iddynt os oes gan ddiffynnydd ifanc anawsterau dysgu, ac nad oes proses neu drefniadau clir er mwyn sicrhau bod hyn wedi ei wneud. Yn aml iawn, felly, dim ond ar y diwrnod neu ystod gwrandawriad y mae anawsterau o'r fath yn dod i'r amlwg. Mae'n bosibl nad ydynt yn dod i sylw'r llys o gwbl, yn enwedig os na roddwyd unrhyw anogaeth i ddiffynyddion ifanc neu eu rhieni/gofalwyr i gysylltu'n fuan ynglŷn â'u hanghenion a'u gofynion hwy eu hunain. Mynegwyd pryder gan rai Timau Troseddau leuenctid bod effaith rhai anawsterau dysgu'n golygu bod person ifanc o bosibl yn methu â 'rhoi cyfrif da ohono'i hun' ac y gallai hyn fod yn niweidiol i'r person ifanc mewn achos llys. Mae posibilrwydd na fydd person ifanc o'r fath yn barod i gymryd rhan yn y broses, er gwaethaf ymdrechion staff y llys. Fel y nodwyd yn y Canllawiau Arferion Da, dylai ymgysylltu fod yn flaenoriaeth ac mae'n hanfodol bod person ifanc yn cael pob cyfle i ddeall y broses a chymryd rhan ynddi.
- 2.6 Mae'r mathau o gymorth personol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol anawsterau ac anabledau dysgu'n amrywio'n fawr, ac mae dealltwriaeth staff y llysoedd (ac asiantaethau eraill) yn y cyswllt hwn yn gyfyngedig. Heb ddealltwriaeth o faint y broblem ac, o ganlyniad, yr effaith debygol ar ymddygiad a dealltwriaeth, ni ellir disgwyl i staff llysoedd wneud darpariaeth briodol na chyfathrebu'n effeithiol.

## Argymhelliad 2

Bod GLIEM yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod proses y llys yn cael ei hwyluso a'i haddasu mewn modd priodol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu drwy:

- hwyluso'r gwaith o ganfod pobl ifanc o'r fath yn gynnar ym mhroses y llys, a
- sicrhau bod staff llys yn meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ymateb yn briodol.

## Mater 3

- 2.7 Roedd cynlluniau da a chlr o'r llysoedd i'w gweld ym manau aros neu fynedfeydd y rhan fwyaf o'r Llysoedd Ieuencid a arolygwyd, a gellid cefnogi'r rhain â phlatiau swyddogaeth effeithiol yn nodi teitl/rôl y gwahanol rai a oedd yn cymryd rhan yn ystafell y llys. Dywedodd llawer o'r Llysoedd Ieuencid wrthym eu bod yn defnyddio platiau swyddogaeth ers cyflwyno'r Canllawiau Arferion Da yn 2001. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddefnydd a oedd yn cael ei wneud o'r rhain yn ystod yr arolygiad, o'r hyn a welodd yr Arolygwyr.
- 2.8 Yn ychwanegol at hyn, er bod yr hyn sy'n digwydd yn yr achos yn cael ei egluro, nid yw'r diffynyddion ifanc yn cael eu hysbysu bob amser ynglŷn â rôl pawb sydd yn ystafell y llys. Nid yw cyflwyniadau'n cael eu gwneud bob amser pan fo achosion yn dechrau a thybir yn aml y bydd asiantaethau eraill wedi rhoi gwybodaeth i'r person ifanc ynglŷn â rolau'r rhai sydd yn ystafell y llys. Ar ben hyn, pan fo diffynnydd ifanc yn ymddangos yn y llys am yr eildro neu mewn achos arall, mae tuedd yn aml i gymryd yn ganiataol nad oes angen ei atgoffa ynglŷn â rôl pawb yn yr ystafell.

## Arfer da

Platiau swyddogaeth mawr, clir, y gellid eu symud o gwmpas yn ystafell llys ieuencid Newport (Ynys Wyth) a Lerpwl, yn cael eu cefnogi gan gynlluniau clir o'r llys yn y man aros.

## Diffynyddion heb gynrychiolwyr

- 2.9 Ychydig iawn o ddiffynyddion sydd heb gynrychiolwyr yn y Llys Ieuencid y dyddiau hyn. Fodd bynnag, rhoddir cymorth a chefnogaeth briodol iddynt ar y diwrnod gan staff y llys. Yn bwysig iawn, gwelodd yr Arolygwyr fod y staff yn y rhan fwyaf o'r llysoedd yn sicrhau nad ydynt dan anfantais; er enghraifft, drwy orfod aros am fwy o amser na pawb arall.

## Trefniadau cyfieithu

2.10 Roedd y trefniadau ar gyfer cael cyfieithwyr i ddiffnyddion ifanc yn effeithiol ym mhob un o'r llysoedd a arolygwyd. Mae'r Canllawiau Arferion Da'n rhoi cryn bwyslais ar gynnwys rhieni a gofalwyr mewn achosion llys. Fodd bynnag, mae prinder canllawiau ynglŷn â'r cyfrifoldeb i ddarparu cyfieithwyr i rieni/gofalwyr sy'n mynychu Llysoedd leuenctid. Pan nad yw'r person ifanc na'r rhiant/gofalwr yn gallu siarad Saesneg, gall cyfieithwyr gyfieithu i'r naill a'r llall. Fodd bynnag, mae adegau pan fo'r person ifanc yn gallu siarad Saesneg, ond y rhiant/gofalwr yn methu. Nododd yr Arolygwyr fod nifer o Lysoedd leuenctid yn barod i ddefnyddio ffrindiau neu berthnasau i gyfieithu i rieni neu ofalwyr yn ystod achosion. Teimla'r Arolygwyr fod perygl gyda'r diffyg eglurder hwn i wahanol ffactorau effeithio ar achosion e.e.:

- cyfieithu annibynadwy
- rhieni neu ofalwyr heb gyfieithydd ac yn methu â dilyn yr achos
- gohiriadau y gellid eu hosgoi, yn arwain at oedi.

### Awgrym 1

Bod GLIEM yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r trefniadau i gael cyfieithwyr ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n mynychu llys gyda ddiffnyddion ifanc, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r llys yn cael eu cyfieithu'n briodol.



## Adran 3

Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da



# Adran 3

## Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da

Edrychasom ar amgylchedd ffisegol y llys i weld a oedd yn meithrin cyfathrebu da er mwyn annog pob un sy'n cymryd rhan i chwarae rôl weithredol. Edrychasom hefyd i ba raddau y gallai diffynyddion ifanc a oedd yn y ddalfa fod yn rhan o broses y llys ac a oedd y llys yn gallu darparu cyfleusterau ar gyfer tystion a oedd yn defnyddio Mesurau Arbennig.

### Cynllun

- 3.1 Mae'r Canllawiau Arferion Da'n annog Llysoedd Ieuencid i fabwysiadu cynllun mwy anffurfiol, lle mae partïon ar yr un lefel neu'n agos at yr un lefel, fel bod modd cadw cysylltiad llygad yn haws a thrwy hynny hwyluso'r broses ymgysylltu.
- 3.2 Y mathau o gynlluniau a welwyd mewn Llysoedd Ieuencid:
  - Anffurfiol – lle mae'r partïon i gyd ar yr un lefel (gan gynnwys yr ynadon neu'r Barnwr Rhanbarth) a lle bo'r dodrefn wedi eu gosod ar ffurf sgwâr neu gylch. Mae'r dodrefn fel arfer yn ddodrefn y gellir eu symud o gwmpas.
  - Lled-ffurfiol – lle bo'r partïon i gyd ar yr un lefel ac eithrio'r ynadon, sy'n eistedd ychydig yn uwch. Mae'r dodrefn, ar wahân i'r Fainc, wedi eu gosod ar ffurf sgwâr neu bedol yn wynebu'r Fainc. Gall y dodrefn fod yn sefydlog neu'n ddodrefn y gellir eu symud.
  - Ffurfiol – cynllun oedolion, gyda Mainc uwch a gosodiad ffurfiol gyda dodrefn sefydlog yn wynebu'r Fainc.
- 3.3 Gwelsom fod cynlluniau anffurfiol a lled-ffurfiol mewn ystafelloedd llys yn gweithio'n dda er mwyn hwyluso cyfathrebu da. Fodd bynnag, gall cynllun ffurfiol mewn ystafell llys weithio'n dda hefyd. Gwelodd yr Arolygwyr enghreifftiau o bob un o'r mathau hyn o ystafelloedd llys a deawn i'r casgliad bod cyfathrebu da'n bosibl beth bynnag yw cynllun y llys. Yr elfen allweddol yw effeithiolrwydd y sawl sy'n cyfathrebu yn hytrach na'r cynllun, er bod ystafelloedd llys anffurfiol neu led-ffurfiol yn hwyluso'r cyfathrebu da hwn fel arfer.
- 3.4 Mae cadw Mainc ychydig yn uwch mewn rhai ystafelloedd llys, (cynllun lled-ffurfiol) wedi gweithio'n dda, gan alluogi pob un o'r partïon i chwarae rhan weithredol a sicrhau cydbwysedd da rhwng anffurfioldeb, diogelwch a pharch i broses y llys.
- 3.5 Mae'r Arolygwyr yn cydnabod bod blaenoriaethau'n gwrthdaro ambell waith, wrth geisio hybu ymgysylltiad drwy broses llys anffurfiol, sicrhau diogelwch pob un o'r partïon ac annog parch i'r llys. Mae'n anodd cael y cydbwysedd yn iawn ac roedd lle i gredu nad oedd ystyriaethau diogelwch yn cael eu hystyried bob tro wrth wneud y penderfyniadau hyn.

3.6 Roedd pob un o'r ystafelloedd llys yr ymwelwyd â hwy, y rhai anffurfiol, lled-ffurfiol a ffurfiol, wedi lleoli bron bob un o'r diffynyddion a'u rhieni/gofalwyr gyda'r bwriad o hwyluso cyfathrebu da. Mae Llys leuenctid Rhydychen yn enghraifft dda o'r defnydd o ystafell llys ffurfiol lle'r oedd ystyriaeth wedi ei rhoi i leoli'r diffynyddion ifanc a'u rhiant/gofalwr. Yn yr achos hwn roeddent yn eistedd ar y fainc flaen ochr yn ochr â thwrnai'r erlyniad ac o flaen twrnai'r amddiffyniad. Yn y gorffennol, byddai twrnai'r amddiffyniad yn eistedd wrth ochr twrnai'r erlyniad ac o flaen y diffynnydd ifanc, gan amharu mewn gwirionedd ar allu'r diffynnydd a'r Fainc i weld ei gilydd yn iawn.

## Pob un o'r partion yn chwarae rhan weithredol

3.7 Mae Timau Troseddau leuenctid yn dimau amlasiantaethol o weithwyr proffesiynol sy'n cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr heddlu, y gwasanaeth prawf ac awdurdodau iechyd (ac asiantaethau eraill weithiau, er enghraifft adrannau tai awdurdodau lleol). Rhan o'u gwaith yw darparu<sup>7</sup> swyddog goruchwyllo ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael gorchymyn llys neu gosb gymunedol. Cyn hyn mae'n bosibl y byddai'r Tîm Troseddau leuenctid yn ymwneud â'r person ifanc am nifer o wahanol resymau; er enghraifft, drwy raglenni ymyrryd ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael rhybudd terfynol gan yr heddlu. Mae swyddogion Timau Troseddau leuenctid hefyd yn darparu gwasanaeth i'r Llys leuenctid drwy ysgrifennu adroddiadau am berson ifanc.

3.8 Nid yw lleoliad staff Timau Troseddau leuenctid mewn rhai ystafelloedd llys yn eu hannog bob amser i ymwneud yn llawn â'r achos; er enghraifft, drwy beidio â chael eu cynnwys yn 'y cylch' mewn cynllun anffurfiol. Mewn llawer o lysoedd, mae gan swyddogion y Timau Troseddau leuenctid ddesg yng nghornel ystafell y llys, ar wahân i weddill y rhai sy'n ymwneud â'r achos. Mae hyn yn pellhau'r Tîm Troseddau leuenctid oddi wrth yr achos a gallai olygu nad yw'n gallu cynnig cymaint o gymorth i'r llys. Fodd bynnag, mewn rhai llysoedd, hyd yn oed pan oedd ystafell y llys wedi ei threfnu'n ffurfiol, gwelodd yr Arolygwyr anawsterau posibl yn cael eu goresgyn drwy ddefnyddio'r ystafell mewn ffordd ystyriol. Er enghraifft, mewn un llys a oedd â chynllun ffurfiol, roedd swyddogion y Tîm Troseddau leuenctid yn eistedd yn y tu blaen, yn agos at y Fainc ac, o ganlyniad, roeddent yn gallu chwarae rhan weithredol yn yr achos.

## Defnyddio doc diogel

3.9 Nid oes gan bob Llys leuenctid ddoc diogel. Derbynnir y bydd yn anos cyfathrebu pan ddefnyddir doc diogel yn y Llys leuenctid. Nid yw pob llys yn ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau o hwyluso ymgysylltiad â'r diffynnydd. Er enghraifft, yn un o'r llysoedd roedd monitor y cyswllt teledu wedi ei osod o flaen y doc diogel ac roedd y ffaith fod llawer ohonynt heb ficroffonau neu systemau sain yn y doc (neu nad oeddent wedi eu switsio ymlaen) yn golygu ei bod yn anodd i'r person ifanc glywed. Yn un o'r llysoedd nid oedd y Fainc yn gallu gweld y diffynnydd hyd yn oed pan oedd yn eistedd yn y doc.

---

<sup>7</sup> Amlinellir gwaith y Timau Troseddau leuenctid yn A38 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

## Mesurau arbennig

3.10 Edrychodd yr Arolygwyr hefyd ar y mesurau arbennig sy'n cael eu darparu, gan gynnwys cyfleusterau fideo a sgriniau, ac roeddent yn fodlon bod y Llysoedd leuenctid yn gallu darparu'r rhain pan fo angen. Yn achos cysylltiadau fideo ar gyfer tystion, fodd bynnag, nid oedd gan rai Llysoedd leuenctid y cyfarpar angenrheidiol ac roedd angen symud y Llys leuenctid i ystafell llys ffurfiol a allai ddarparu'r cyfarpar. Mae goblygiadau ar gyfer ymgysylltu effeithiol gyda'r diffynnydd wrth symud o ystafell anffurfiol i un ffurfiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae rhai llysoedd yn lleihau'r problemau drwy ddefnyddio'r lle sydd ar gael yn ofalus.





## Adran 4

Prosesau llys mwy agored i annog ffydd y gymuned yn y Llysoedd leuencid



# Adran 4

## Prosesau llys mwy agored i annog ffydd y gymuned yn y Llysoedd Ieuencid

Edrychasom a oedd cysylltiadau rhagweithiol â'r cyfryngau lleol, a oedd modd i ddioddefwyr fynychu gwrandawiadau, a oedd pobl eraill yn mynychu gwrandawiadau llysoedd ieuencid weithiau a pha fath o wybodaeth oedd ar gael am y Llys Ieuencid.

- 4.1 Pan gyhoeddwyd Canllawiau Arferion Da y Llysoedd Ieuencid yn 2001, un o amcanion y Llywodraeth ar gyfer y Llys Ieuencid oedd sicrhau trefniadau mwy agored ar gyfer achosion gan fod y Llys Ieuencid wedi bod â diwylliant caeedig ers tro byd, a chyfeiriwyd ato unwaith fel 'gardd gudd y system gyfreithiol'<sup>8</sup>.
- 4.2 Ni chanfu'r Arolygwyr lawer o dystiolaeth fod prosesau llys yn fwy agored o ganlyniad i gyflwyno'r Canllawiau Arferion Da. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd dystiolaeth sylweddol o'r cysylltiad rhwng prosesau llys mwy agored a chymuned sydd â mwy o ffydd yn y Llysoedd Ieuencid. Cadarnhaodd y rhai a gyfwelwyd nad oedd gwerthusiadau o'r fath wedi eu cynnal eto yn lleol nac yn genedlaethol. Fel cam cychwynnol efallai y byddai'n briodol gwneud gwaith ymchwil er mwyn canfod pa fanteision, os o gwbl, a geid o ganlyniad i wneud ystafell y llys yn fwy agored. Gallai hyn helpu i gael consensws ynglŷn â pha mor fuddiol yw gwneud Llysoedd Ieuencid yn fwy agored.

### Cysylltu â'r wasg

- 4.3 Nid oes llawer o gyfathrebu rhagweithiol rhwng y Llysoedd Ieuencid a'r cyfryngau. Ychydig iawn o Lysoedd Ieuencid sy'n darparu mainc neu sedd arbennig ar gyfer y wasg yn ystafell y llys, yn darparu rhestrau llys i'r wasg ymlaen llaw neu'n enwebu rhywun i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer y cyfryngau. Ceir teimlad cyffredinol yn y gymuned cyfiawnder ieuencid nad oes gan y cyfryngau ddiddordeb mewn newyddion cadarnhaol, ac mai dim ond adroddiadau negyddol fyddai'n cael eu cyhoeddi gan y wasg, gan leihau ffydd y cyhoedd yn y llys ieuencid yn hytrach na'i gynyddu.
- 4.4 Nododd yr Arolygwyr hefyd fod staff llys yn gyndyn i gysylltu â'r wasg â gwybodaeth am y Llys Ieuencid. Er enghraifft, mewn un llys, roedd diffynyddion ifanc yn cael dedfrydau o garchar am ymosodiad treisgar. Roedd staff y llys yn ymwybodol bod ymosodiadau o'r fath yn peri pryder i'r gymuned a theimlent y byddai sylw sylweddol yn y wasg yn rhoi neges ddeublyg; yn tawelu ofnau'r cyhoedd ac yn dangos nad oedd y llys yn goddef troseddau treisgar. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn teimlo'n gyffyrddus ynglŷn â chysylltu â'r wasg ac, o ganlyniad, ni roddwyd sylw i'r stori. Cyhoeddwyd y Canllawiau Arferion Da ar gyfer y Llysoedd Ieuencid cyn i GLIEM gael ei sefydlu yn Ebrill 2005. Cyn hynny, ceid 42 Pwyllgor Llysoedd

<sup>8</sup> Y Gwir Anrhydeddus Jack Straw (1997).

Ynadon annibynnol (a oedd yn gyfrifol am y Llysoedd Ieuencid). Mae gan GLIEM swyddfa ganolog ar gyfer y wasg a all gynnig cymorth i staff llys. Mae Swyddfa'r Wasg wedi datblygu cyfres o ganllawiau ar gyfer y llysoedd yn ddiweddar yn ymwneud â phob agwedd ar gysylltu â'r wasg. Dylai'r swyddfa newydd hon ar gyfer y wasg yn GLIEM a'r canllawiau ar gyfer cysylltu â'r wasg helpu Llysoedd Ieuencid i ddelio gyda'r wasg yn fwy effeithiol.

- 4.5 Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau rhagorol o gysylltu â'r cyfryngau mewn ambell lys. Er enghraifft, mae gan Lys Ieuencid Abertawe berthynas dda gyda'r wasg leol, a defnyddiwyd y berthynas hon er budd y llys yn ystod achos llofruddiaeth emosiynol iawn a gafodd lawer iawn o sylw. Roedd y cyhoedd wedi tarfu cryn dipyn ar weithdrefnau'r llys yn ystod gwrandawriad blaenorol wrth i'r diffynyddion ifanc a oedd wedi cael eu cadw yn y ddalfa ddod i'r golwg. Cysylltodd staff y llys â'r wasg, a chyhoeddodd y wasg erthygl yn nodi na fyddai'r diffynyddion yn ymddangos yn bersonol yn y llys yn y gwrandawriad nesaf. O ganlyniad, cadwodd y torfeydd draw.

*“Roedd yr wythnos a dreuliais yn y Llys Ieuencid yn Llys Ynadon Gorllewin Llundain yn ddi-ddorol iawn. Cefais weld popeth yno: eisteddais yn ymyl y Barnwyr [Rhanbarth] yn ystafelloedd y llys, treuliais amser yn eu hystafelloedd a chefais hynny o gyfleoedd a fynwn i siarad â staff eraill y llys. O ganlyniad, roedd fy erthygl yn seiliedig ar ffeithiau, yn drylwyr ac yn gytbwys.*

*Fodd bynnag, roeddwn yn ymwybodol iawn mai braint anarferol oedd hyn. Roeddwn wedi cael gwahoddiad i ddod y tu ôl i'r llenni fel ffafr bersonol gan y barnwyr eu hunain. Beth fyddwn i wedi ei glywed pe bawn i wedi gwneud fy nghais drwy sianeli swyddogol? Alla i ddim dweud i sicrwydd, ond tybiaf y byddai llawer yn amau fy nghymhellion ac y byddai'r hyn y caniateid imi ei weld, gan gymryd y rhoddid caniatâd imi, wedi ei gyfyngu i'r fath raddau fel na fyddai unrhyw ddiben imi fynd yno.”*

Amelia Hill (Gohebydd Diwylliant a Chymdeithas, The Observer) yn siarad gyda'r Arolygwyr am ei hymweliad â Llys Ynadon yng Ngorllewin Llundain.

## Codi cyfyngiadau adrodd

- 4.6 Ceir gwaharddiad awtomatig mewn achosion ieuencid sy'n atal y cyfryngau rhag gwneud unrhyw adroddiad a allai ddatgelu pwy yw tyst, diffynnydd neu unrhyw un arall dan 18 oed y mae a wnelo achos ag ef. Mae'r cyfyngiadau'n cynnwys enwi ysgolion a chyfeiriadau a dangos lluniau o rywun sydd dan 18 oed<sup>9</sup>. Mae gan y Llys Ieuencid hawl i orchymyn codi cyfyngiadau adrodd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yng nghyswllt person ifanc a gafwyd yn euog, os yw'n fodlon y byddai gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd. Gwelsom fod ceisiadau i godi cyfyngiadau adrodd gan y wasg yn anghyffredin, ac eithrio mewn achosion amlwg iawn. Gwelsom fod y wasg hefyd yn tueddu i adrodd am Orchymynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, pan nad oes cyfyngiadau adrodd wedi eu pennu.<sup>10</sup> Siaradodd yr Arolygwyr gydag aelodau o'r wasg er mwyn deall eu barn hwy ynglŷn ag adrodd am achosion llys. Dywedwyd wrth yr Arolygwyr nad yw gohebwy'r yn gwneud ceisiadau i godi'r cyfyngiadau adrodd yn y Llys Ieuencid gan eu bod yn credu na fydd cyfyngiadau'n cael eu codi fel rheol gan fod y llys yn gwarchod diffynyddion ifanc drwy beidio â datgelu eu henwau a'u cyfeiriadau.

<sup>9</sup> A49 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933.

<sup>10</sup> Nid yw cyfyngiadau adrodd yn cael eu cymhwyso'n awtomatig i Orchymynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a thorri amodau Gorchymynion o'r fath mewn achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

## Dioddefwyr yn y llys

- 4.7 Yn anaml y mae dioddefwyr, nad ydynt o reidrwydd yn dystion, yn mynychu'r Llys leuenctid. Dengys tystiolaeth gan swyddogion cyswllt dioddefwyr Timau Troseddau leuenctid nad yw dioddefwyr bob amser yn ymwybodol y gallant ofyn am gael bod yn bresennol yn y llys. Mae'n bosibl mai asiantaethau eraill sy'n gyfrifol am roi gwybodaeth am wrandawiadau i ddiodeffwyr. Derbynnir yn gyffredinol ymhlith asiantaethau cyfiawnder leuenctid bod Llysoedd leuenctid yn llysoedd caeedig a cheir camdealltwriaeth yn aml fod hyn hefyd yn berthnasol i ddiodeffwyr. Gall GLIEM helpu i annog diodeffwyr i fynychu llysoedd, drwy sicrhau bod asiantaethau eraill yn ymwybodol y gall diodeffwyr fynychu llysoedd hefyd. Ar yr adegau anghyffredin hynny pan fo diodeffwr nad yw'n rhoi tystiolaeth yn dymuno mynychu'r llys, bydd y llys yn dangos cydymdeimlad ac yn cynnig cymorth.
- 4.8 Dywedwyd wrth yr Arolygwyr bod person ifanc a oedd wedi diodeff ymosodiad difrifol wedi ymddangos mewn un llys ar fore'r treial gan nodi ei fod yn dymuno gwyllo'r achos. Nid oedd y llys wedi cael ei hysbysu ymlaen llaw ond treuliodd staff y llys gryn dipyn o amser gyda'r person ifanc er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn yn briodol a bod cefnogaeth ar gael (drwy'r Gwasanaeth Tystion/Cymorth i Ddiodeffwyr). Fel mae'n digwydd, penderfynodd y person ifanc beidio â gwyllo'r achos, ar ôl trafod y mater gyda staff y llys a'r gweithiwr Cymorth i Ddiodeffwyr. Yn lle hynny, arhosodd y diodeffwr yn adeilad y llys (dan ofal gweithiwr Cymorth i Ddiodeffwyr) a daeth staff y llys ato'n rheolaidd i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am yr achos.

### Awgrym 2

Bod GLIEM yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod diodeffwyr yn ymwybodol y gallant wneud cais i fynychu'r Llys leuenctid, ac yn ei gwneud yn haws iddynt fynychu'r llys lle bynnag y bo modd.

- 4.9 Nid oes llawer o wybodaeth ar gael ynglŷn â phroses y Llys leuenctid i unrhyw un sy'n mynd i fod yn rhan ohoni, ond canfu'r Arolygwyr fod tystion fel arfer yn cael digon o wybodaeth a gofal da ar y diwrnod gan staff y llys a'r Gwasanaeth Tystion.

## Deall y Llysoedd leuenctid

- 4.10 Nid oes llawer o gyfathrebu allanol er mwyn sicrhau bod y gymuned ehangach yn deall rôl y Llys leuenctid yn well. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd gwelsom fod diwrnodau agored llysoedd yn cynnwys treialon ffug yn y Llys leuenctid (yn ogystal â'r llys oedolion) ac roedd y rhain wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith y cyhoedd, yn enwedig lle cynigid sesiwn cwestiynau ac atebion. Mewn un llys, roedd meibion a merched staff y llys (a staff o asiantaethau eraill) yn chwarae rhan diffynyddion a thystion ifanc, gyda staff y llys, Timau Troseddau leuenctid, yr amddiffyniad a Gwasanaeth Eryl y Goron i gyd yn cymryd rhan – cafwyd cefnogaeth dda i'r digwyddiad a sylw da yn y cyfryngau lleol hefyd. Gan ei bod yn ymddangos bod y rhan honno o'r Canllawiau Arferion Da sy'n ymwneud â chysylltu â'r wasg a phrosesau llys mwy agored wedi cael llai o effaith na rhai o'r lleill, rydym wedi awgrymu y dylid ei hystyried ymhellach.

### Awgrym 3

Bod GLIEM yn gweithio gyda'r farnwriaeth i adolygu'r rhan o'r Canllawiau Arferion Da sy'n ymwneud â chysylltu â'r wasg a phrosesau llys mwy agored.





## Adran 5

Ceir systemau effeithiol i gefnogi'r  
Llysoedd Ieuenctid a darparu  
amgylchedd diogel i bob defnyddiwr



# Adran 5

## Ceir systemau effeithiol i gefnogi'r Llysoedd Ieuencid a darparu amgylchedd diogel i bob defnyddiwr

Edrychasom: a oedd trefniadau amlasiantaethol effeithiol yn bodoli er mwyn symud achosion yn eu blaenau; a oedd cyfleusterau'r ddalfa'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer oedran; a oedd lefelau diogelwch ar gyfer pobl ac eiddo'n rhoi hyder i holl ddefnyddwyr y Llys Ieuencid; ac a oedd y manau aros ar wahân i fannau aros oedolion yn ddiogel, yn lân ac yn gyfforddus.

### Systemau gweinyddol

5.1 Yn gyffredinol, mae gweinyddiaeth y llys yn gweithio'n dda gydag asiantaethau perthnasol er mwyn symud achosion yn eu blaen yn fuan. Creodd swyddogion hynt achosion y llysoedd ynadon gryn argraff ar yr Arolygwyr gyda'u hymrwymiad a'u brwdfrydedd i fwrw 'mlaen ag achosion ieuencid. Yn y rhan fwyaf o'r Llysoedd Ieuencid yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr arolygiad hwn, mae staff hynt achosion yn chwarae rhan weithredol, ac arweiniol weithiau, mewn cyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd i symud achosion yn eu blaenau drwy'r system cyfiawnder ieuencid. Mae cyfarfodydd o'r fath fel arfer yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlly y Goron, Timau Troseddau Ieuencid a GLIEM.

5.2 Ceir tystiolaeth o werth symud achosion yn eu blaenau'n effeithiol mewn dwy ffynhonnell ar gyfer data perfformiad:

**A. Data o darged prydlondeb y Llywodraeth ar gyfer troseddwr ifanc mynych<sup>11</sup>.**


Mae addewid rhyngasiantaethol cenedlaethol wedi ei wneud ers tro i gwblhau achos o'r adeg arestio i'r adeg dedfrydu cyn pen 71 diwrnod<sup>12</sup> ac mae pob Ardal yn cynnal cyfarfodydd hynt achosion rheolaidd er mwyn hwyluso hyn. Yn Ffigur 1 isod gwelir nifer cyfartalog y diwrnodau o arestio i ddedfrydu ar gyfer troseddwr ifanc mynych a ddedfrydwyd yn llysoedd ynadon Cymru a Lloegr o Ionawr 2001 hyd fis Gorffennaf 2006. Cydnabyddir, er mwyn cyrraedd y targed o 71 diwrnod, bod angen i lysoedd ynadon gwblhau'r broses mewn tua 60 diwrnod, gan fod achosion yn para'n hirach yn Llys y Goron. Yn Ionawr 2001 roedd y cyfartaledd yn 82 diwrnod, ond gwelwyd gostyngiad sylweddol erbyn canol 2001 i 57 diwrnod. Yn dilyn cyfnod o amrywiadau yn y data, mae'r perfformiad ers Ionawr 2006 wedi bod yn sefydlog gyda'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (yn y 60au isel yn gyson) yn awgrymu bod perfformiad ar y lefel hon wedi ei gynnwys fel elfen prif ffrwd mewn rhai Ardaloedd.

<sup>11</sup> Mae Troseddwr Ifanc Mynych yn golygu person ifanc 10-17 oed sydd wedi cael ei ddedfrydu gan unrhyw lys troseddol ar dri achlysur gwahanol neu fwy am un neu ragor o droseddau cofnodadwy, ac sy'n cael ei arestio wedyn cyn pen tair blynedd o adeg y ddedfryd ddiwethaf neu y cyflwynir gwybodaeth yn ei erbyn am drosedd cofnodadwy arall.

<sup>12</sup> Mae hwn yn darged hanesyddol a bennwyd fel addewid y Llywodraeth i droseddwr ifanc mynych yn 1997 ac mae'n cynnwys Llys y Goron a'r llysoedd ynadon.

Mae'r addewid o 71 diwrnod yn ymwneud â llawer o asiantaethau cyfiawnder ieuencid (yr Heddlu, Gwasanaeth Erynn y Goron, Timau Troseddau Ieuencid a GLIEM). Er nad yw pob Ardal yn cyrraedd y targed hwn yn gyson, roedd yr Arolygwyr yn fodlon bod y llysoedd yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolygiad hwn yn gweithio tuag ato mewn modd rhagweithiol. Nid edrychodd yr Arolygwyr ar effeithiolrwydd asiantaethau eraill yn y broses.

**Ffigur 1 Amseroldeb Troseddwr Ifanc Mynych – Cyfartaledd y diwrnodau o arestio i ddedfrydu ar gyfer achosion a wrandawyd mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr (2001 - 2006)**



**B. Perfformiad o gymharu â safonau cenedlaethol ar gyfer cwblhau pob achos mewn Llysoedd Ieuencid.**

Mae Ffigur 2 isod yn dangos perfformiad fel cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr o Fawrth 2005 hyd fis Medi 2006<sup>13</sup>. Mesurir Ardaloedd gan GLIEM o gymharu â 80% neu fwy o achosion o fewn y safonau. Mae cyfartaledd Cymru a Lloegr yn gyson uwch na hyn.

**Ffigur 2 Amseroldeb pob Achos Ieuencid mewn llysoedd ynadon, Cymru a Lloegr (canran yr achosion o fewn y targed).<sup>14</sup>**

<b>Cymru a Lloegr</b>	<b>Pleon euog cychwynnol (Safon genedlaethol 59 diwrnod)</b>	<b>Treialon (Safon genedlaethol; 176 diwrnod)</b>
	Canran y pleon euog cychwynnol a gwblhawyd o fewn y safon o 59 diwrnod	Canran y treialon a gwblhawyd o fewn y safon o 176 diwrnod
Cyfnod yr arolwg		
Mawrth 2005	87	87
Mehefin 2005	88	89
Medi 2005	88	90
Rhagfyr 2005	87	89
Mawrth 2006	87	87
Mehefin 2006	89	87
Medi 2006	89	87

**5.3** Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd i symud achosion yn eu blaenau, roedd yr Arolygwyr yn falch o weld staff y llys yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn delio'n effeithlon gydag achosion ar y diwrnod. Er enghraifft, mewn llawer o Lysoedd Ieuencid roedd tywyswyr yn gweithredu mewn modd rhagweithiol wrth neilltuo amser ar gyfer pobl ifanc a'u cyfeirio at eu twrnai, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr Tîm Troseddau Ieuencid (pan fo'n berthnasol) ar gyfer cyfarfod cynnar. Nododd yr Arolygwyr fod tywyswyr yn dda iawn am ymateb i anghenion diffynyddion ifanc heb gynrychiolaeth; er enghraifft, yn sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y twrnai ar ddyletsydd.

**5.4** Gwelodd yr Arolygwyr rai enghreifftiau gwyb o brotocolau a chytundebau lefel gwasanaeth a gefnogid gan bob un o'r asiantaethau perthnasol. Yn bwysig iawn, roedd y rhain i weld yn gweithio'n ymarferol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cytundebau o'r fath yn werthfawr gan eu bod yn egluro rolau a chyfrifoldebau pob un o'r asiantaethau perthnasol ac mae adolygiad rheolaidd yn sicrhau eu bod yn cael eu diweddu'n gyson a'u bod yn dal i fod yn ddilys ac yn ddefnyddiol. Yn Barnsley, er enghraifft, ceir Cytundeb Cyfiawnder Ieuencid rhagorol rhwng Llys Ynadon Barnsley a Thîm Troseddau Ieuencid Barnsley (2005). Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â chyfleusterau ac adnoddau'r Tîm Troseddau Ieuencid, ymddangosiadau mewn llysoedd oedolion; gwybodaeth am fechnïaeth, cefnogaeth a gwasanaethau remand, ac yn egluro cyfrifoldebau'r llys a'r Tîm Troseddau Ieuencid.

<sup>13</sup> Daeth safonau cenedlaethol i gymryd lle targedau amseroldeb a gytunwyd yn lleol yn Awst 2004. Mae'r safonau ar gyfer achosion Ieuencid yn cynnwys pob achos.

<sup>14</sup> Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol yr Adran Materion Cyfansoddiadol *Time Intervals for Criminal Proceedings in Magistrates' Courts*. Data'n gywir ar 27 Tachwedd 2006.

## Grwpiau Defnyddwyr Llys

- 5.5 Mae Grwpiau Defnyddwyr Llys yn bodoli er mwyn helpu i sicrhau bod y llys yn gweithio'n effeithlon ac yn ddirwystr drwy ymgynghori â defnyddwyr a'u cynnwys yn y gweithdrefnau. Maent yn ceisio canfod, trafod a chynnig atebion i broblemau lleol a datblygu syniadau. Fel arfer maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Fainc Ieuenctid, staff llys, y Gwasanaeth Tystion, y Tîm Troseddau Ieuenctid, Gwasanaeth Erlyn y Goron, darparwr y ddalfa, staff diogelwch a'r heddlu, ac mae rhai hefyd yn cynnwys twrneiod yr amddiffyniad. Mae gan bob un o'r Ardaloedd yr ymwelwyd â hwy yn ystod ein harolygiad Grwpiau Defnyddwyr Llys, er nad yw pob un yn benodol ar gyfer Llys Ieuenctid.
- 5.6 Mae pob un o'r asiantaethau perthnasol yn dda am fynychu'r cyfarfodydd. Cadarnhaodd adborth gan asiantaethau eraill fod syniadau'n cael eu datblygu a bod materion yn cael eu trafod yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r fath.

## Gwahanu oddi wrth oedolion

- 5.7 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i blant a phobl ifanc gael eu cadw ar wahân i oedolion mewn llys. Canfu'r Arolygwyr fod manau aros y Llys Ieuenctid ar wahân i fannau aros llysoedd oedolion yn y rhan fwyaf o adeiladau'r llysoedd. Fodd bynnag, mae lleoliad cyfleusterau eraill, fel toiledau a lluniaeth yn gallu golygu weithiau bod pobl ifanc yn gorfod mynd drwy fannau aros oedolion er mwyn defnyddio'r cyfleusterau hyn. Canfu'r Arolygwyr fod manau aros ar y cyfan yn gyfforddus ond nad oedd llawer o wybodaeth ddefnyddiol, fel gwybodaeth am broses y llys a phwy sydd yn ystafell y llys, neu bethau i'w gwneud (fel cylchgronau i'w darllen), er bod gan o leiaf ddau o'r llysoedd a arolygwyd set deledu yn y man aros. Lle nad oes Llys Ieuenctid ar wahân, roeddem yn fodlon bod y rhan fwyaf o'r llysoedd yn ceisio cadw diffynyddion ifanc ar wahân i oedolion sy'n ddiffynyddion drwy ddarparu diwrnod ar wahân ar gyfer pobl ifanc. Nid oedd dau o'r llysoedd a arolygwyd yn gwahanu diffynyddion ifanc ac oedolion sy'n ddiffynyddion mewn gwirionedd.

## Pobl ifanc sydd yn y ddalfa

- 5.8 Gellir cadw diffynyddion ifanc ar remand neu eu dedfrydu i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddiant Diogel neu lety diogel o eiddo awdurdod lleol. Mae llety diogel o eiddo awdurdod lleol yn brin ac nid ydynt bob amser wedi eu lleoli yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr sy'n gyfrifol am hebrwng pobl ifanc i lety o'r fath ond mae GLIEM yn darparu ystafelloedd cadw yn y llys. Mae pobl ifanc sydd yn y ddalfa yn agored iawn i niwed.
- 5.9 Mae safon y cyfleusterau ar gyfer cadw diffynyddion ifanc yn y llys yn amrywio o annerbyniol i dda. Mae gan rai llysoedd Ieuenctid gyfleusterau penodol ar gyfer diffynyddion ifanc sydd wedi eu lleoli ger swyddfa'r ddalfa ac, mewn rhai achosion, mae ganddynt deledu cylch cyfyng. Mae llysoedd eraill yn defnyddio celloedd oedolion, er bod diffynyddion ifanc bob amser yn cael eu gwahanu'n briodol oddi wrth oedolion sy'n ddiffynyddion.

- 5.10 Roedd yr arolygwyr wedi dychryn pan welsant gyflwr yr ystafell a ddarperid ar gyfer pobl ifanc a oedd yn cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel o eiddo'r awdurdod lleol mewn un llys, ac argymhellasant ar unwaith i GLIEM na ddylid ei defnyddio. Cafodd yr argymhelliad hwn ei weithredu ar y diwrnod. Ystafell ar ei phen ei hun oedd hon. Roedd ynnddi leoedd lle gallai rhywun glymu rhywbeth neu achosi niwed iddo'i hun, a chadarnhaodd staff y Tîm Troseddau leuenctid fod pobl ifanc yn cael eu cau yno ar eu pennau eu hunain yn aml. Hyd yn oed pe bai rhywun yn yr ystafell gyda'r person ifanc nid oedd larwm na ffôn pe bai aelod o staff y Tîm Troseddau leuenctid mewn helynt. Dyma'r enghraifft waethaf, ond nid yr unig un, o ystafell amhriodol ar gyfer pobl ifanc hawdd eu niweidio.
- 5.11 Roedd yr Arolygwyr yn bryderus bod rhai diffynyddion ifanc yn cael eu cadw yn y llys am gryn dipyn o amser, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r cyfleusterau'n annigonol.
- 5.12 Mae cryn ddryswch yn ystafelloedd y llys ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am bobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel o eiddo awdurdod lleol, tra bônt yn dal i fod yn adeilad y llys yn aros am rywun i'w hebrwng (sy'n gallu cymryd rhai oriau weithiau). Clywodd yr Arolygwyr adroddiadau gwrthgyferbyniol ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am y bobl ifanc hyn a sut y gofelir amdanynt tra bônt yn adeilad y llys. Nid yw pobl ifanc o'r fath wedi eu cynnwys yn y contract Hebrwng a Gwarchod Carcharorion, ac ni ddisgwylir i'r Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion fod yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn golygu bod y cyfrifoldeb yn cael ei roi yn aml i staff y Tîm Troseddau leuenctid, sy'n aml â chyfrifoldebau eraill i'w cyflawni. Fodd bynnag, gwelodd yr Arolygwyr hefyd un ddogfen gan swyddog y ddalfa, yn nodi mai staff y llys oedd yn gyfrifol am ofalu am y bobl ifanc hyn. Mae ansicrwydd a ddylid cadw'r bobl ifanc hyn mewn celloedd y gellir eu cloi ond nid oes ystafelloedd neilltuol eraill ar gael ar gyfer hyn bob amser. Mae'r dryswch hwn wedi golygu bod pobl ifanc hawdd eu niweidio'n cael eu gadael ar eu pennau eu hunain ac mewn ystafelloedd anaddas mewn rhai achosion. Mae hon yn sefyllfa beryglus ac mae perygl mawr o niwed difrifol. Mae'r sefyllfa hon yn annerbyniol. Tynnwyd sylw at y mater mewn adroddiad gan Arolygiaeth Profiannaeth Ei Mawrhydi yn 2005<sup>15</sup> ond nid yw'n ymddangos bod llawer wedi newid. Rydym wedi gwneud argymhelliad brys i GLIEM isod.
- 5.13 Clywodd yr Arolygwyr enghraifft o ganlyniadau difrifol posibl dryswch o'r fath gan staff y Tîm Troseddau leuenctid mewn un llys. Roedd person ifanc wedi ei remandio i lety diogel o eiddo awdurdod lleol a chafodd ei adael yng ngofal staff y Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion. Tua diwedd y diwrnod gwaith, cysylltodd staff y Gwasanaeth â'r Tîm Troseddau leuenctid a nodi'n glir y byddent yn rhyddhau'r person ifanc am 5.00 pm pan fyddai'r staff yn gorffen eu dyletswydd, oni bai bod y Tîm Troseddau leuenctid yn barod i gymryd drosodd neu fod yr hebryngwr wedi cyrraedd. Ychydig wedi 5.00 pm daeth staff y Tîm Troseddau leuenctid o hyd i'r person ifanc yn eistedd ar risiau adeilad y llys.

### Argymhelliad 3

Bod GLIEM, yn achos pobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel o eiddo awdurdod lleol, yn egluro pwy sy'n gyfrifol am y person ifanc tra bo'n aros i gael ei hebrwng o'r llys, ac yn sicrhau bod ei gyfrifoldebau'n cael eu cyflawni o hyd.

<sup>15</sup> *From Arrest to Sentence. The Role of YOTs in the Safeguarding of Children*, Arolygiaeth Profiannaeth Ei Mawrhydi 2005, t.68.

5.14 Mae'n bwysig bod dogfennau pwysig yn cael eu hanfon gyda charcharor i'r carchar. Mae dogfennau, fel adroddiadau cyn-euogfarnu a chyn-dedfrydu, yn galluogi Gwasanaeth Carchardai EM i wneud asesiad risg cynhwysfawr o garcharorion newydd. Heb wybodaeth o'r fath gallai carcharorion a staff carchardai wynebu risg ychwanegol a diangen. Mewn rhai llysoedd, dywedodd cynghorwyr cyfreithiol wrthym eu bod wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod dogfennau'n cael eu hanfon gyda'r carcharor, ond nid oedd hyn yn digwydd ym mhobman. Roedd yr Arolygwyr yn bryderus o weld nad yw pob Llys Ieuencid mewn gwirionedd wedi gweithredu argymhelliad a wnaethpwyd yn adroddiad Ymchwiliad Mubarek ynglŷn â darparu gwybodaeth benodol i'r Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion gyda'r warant cadw yn y ddalfa. Mae hyn wedi digwydd er bod canllawiau clir ar y mater wedi eu hanfon i bob Ardal GLIEM drwy Fwletinau Gwybodaeth Busnes mewnol.

#### Argymhelliad 4

Bod GLIEM yn sicrhau bod pob Llys Ieuencid wedi gweithredu argymhelliad Ymchwiliad Mubarek ynglŷn â darparu gwybodaeth benodol gyda'r warant cadw yn y ddalfa i'r Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion.

### Cyswllt fideo â sefydliadau caethiwo

5.15 Mae gan lawer o Lysoedd y Goron a llysoedd ynadon systemau fideo er mwyn cysylltu carcharorion a Sefydliadau Troseddwr Ifanc. Mae'r rhain yn caniatáu i bobl sydd yn y ddalfa ymddangos yn y llys drwy gyswllt fideo byw o'r carchar. Ar hyn o bryd, dim ond cyn dechrau treial y gellir defnyddio cysylltiadau o'r fath.

5.16 Mae pobl ifanc yn aml yn gorfod teithio'n bell i'r llys ac mae'n bosibl y byddant yn gorfod treulio cryn dipyn o amser mewn ystafelloedd anaddas. Roedd yr Arolygwyr yn siomedig nad yw cyfleusterau cyswllt fideo o'r carchar yn cael eu nodi'n aml fel dewis posibl yn yr achosion hyn. Mae hyn ambell waith oherwydd diffyg cyfarpar, ond weithiau mae oherwydd gwahanol ddehongliadau o'r modd y gellir defnyddio'r rhain<sup>16</sup>.

#### Awgrym 4

Bod GLIEM yn gweithio gyda'r farnwriaeth i adolygu ac egluro'r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio cyswllt-fideo carchardai ar gyfer gwrandawiadau cyn-treial yn y Llys Ieuencid.

### Diogelwch

5.17 Mae GLIEM wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer rheoli diogelwch yn effeithiol o fewn GLIEM. Bwriadwyd i'r canllawiau hyn fod yn ganllawiau cyfeiriol ac yn arf rheoli diogelwch yn cynnig atebion rheoli ffisegol a gweithredol i broblemau diogelwch. Fodd bynnag, gwelsom fod diogelwch pobl ac eiddo mewn llawer o Lysoedd Ieuencid yn annigonol, gydag asesiad gwan o risg. Rydym wedi rhoi manylion am hyn mewn atodiad cyfrinachol i GLIEM.

#### Argymhelliad 5

Bod GLIEM yn sicrhau bod pob Llys Ieuencid yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi Diogelu Pobl ac Eiddo (*Safe and Secure*).

<sup>16</sup> A47 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, hefyd yn cael ei hybu yn A45 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

# Atodiad A

## Ymatebion GLIEM i argymhellion HMICA

### Argymhelliad 1 HMICA

Bod GLIEM yn sicrhau bod gwybodaeth briodol cyn achos llys, sy'n paratoi diffynyddion ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn ddigonol ar gyfer ymddangos gerbron llys, ar gael ac wedi ei dosbarthu'n effeithiol.

#### Ymateb GLIEM

- Mae GLIEM yn derbyn yr argymhelliad. Byddwn yn gweithio gyda staff y llysoedd, ymarferwyr a phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y proffesiwn cyfreithiol, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, y Swyddfa Gartref (Uned Cyfiawnder Ieuencid a Phlant), Cymdeithas Clercod yr Ynadon, Pwyllgor Llysoedd Ieuencid Cymdeithas yr Ynadon a'r Trydydd Sector er mwyn nodi elfennau hanfodol i'w cynnwys mewn gwybodaeth cyn-llys yn ogystal â datblygu arferion Gorllewin Mersia a ganmolwyd gan HMICA. Byddwn yn cynnwys yr elfennau hyn mewn canllaw neu fodel y gall Ardaloedd ei ddefnyddio wedyn i gynhyrchu gwybodaeth cyn-llys, gan ystyried eu trefniadau a'u hamgylchiadau lleol yn ôl y galw. Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag argymhelliad 2 sy'n ymwneud â diffynyddion ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth cyn-llys i rieni a gofalwyr yn rhoi cyngor clir ynglŷn â hysbysu'r llys am anawsterau person ifanc.

#### Targed cyffredinol ar gyfer gwelliant:

Gweithredu'r argymhelliad yn llawn ym mhob un o Ardaloedd GLIEM erbyn 31 Ionawr 2008.

### Argymhelliad 2 HMICA

Bod GLIEM yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod proses y llys yn cael ei hwyluso a'i haddasu mewn modd priodol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu drwy:

- hwyluso'r gwaith o ganfod pobl ifanc o'r fath yn gynnar ym mhroses y llys, a
- sicrhau bod staff llys yn meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ymateb yn briodol.

#### Ymateb GLIEM

- Mae GLIEM yn derbyn yr argymhelliad. Mae'n gysylltiedig ag Argymhelliad 1 ynglŷn â gwybodaeth cyn-llys. Byddwn yn sicrhau bod y canllaw neu'r model y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb blaenorol yn ymwneud yn benodol â rhieni a gofalwyr yn hysbysu'r llys ynglŷn ag anawsterau dysgu person ifanc yn gynnar yn y broses fel bod y llys yn gallu rhoi ystyriaeth iddynt. Mae Argymhelliad 2 hefyd yn gysylltiedig â Chyfarwyddyd Ymarfer ar ddiffynyddion hawdd eu niweidio a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir (Ebrill 2007). Bydd y cyfarwyddyd hwn yn cynnwys diffynyddion ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn datblygu canllaw byr mewn iaith glir i'n staff am anawsterau dysgu ymhlith pobl ifanc yn seiliedig ar y deunydd gorau sydd ar gael, gan ystyried y Cyfarwyddyd Ymarfer. Byddwn hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod timau'r amddiffyniad yn tynnu sylw'r llysoedd at broblemau diffynyddion ifanc yn y maes hwn lle bo hyn yn briodol.

#### Targed cyffredinol ar gyfer gwelliant:

Gweithredu'r argymhelliad yn llawn ym mhob un o Ardaloedd GLIEM erbyn 14 Medi 2007.

### Argymhelliad 3 HMICA

Bod GLIEM, yn achos pobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel o eiddo awdurdod lleol, yn egluro pwy sy'n gyfrifol am y person ifanc tra bo'n aros i gael ei hebrwng o'r llys, ac yn sicrhau bod ei gyfrifoldebau'n cael eu cyflawni o hyd.

#### Ymateb GLIEM

- Mae GLIEM yn cydnabod bod angen mwy o eglurder yn y maes hwn ac mae'n awyddus i roi sylw i fater cyfrifoldeb am y bobl ifanc hynny sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel awdurdod lleol.
- Bydd GLIEM yn gweithio gyda'i bartneriaid, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Timau Troseddau Ieuencid, Gwasanaethau Hebrwng a Gwarchod Carcharorion a hefyd gyda chontractwyr hebrwng er mwyn egluro'r trefniadau priodol, rhoi cyhoedduswydd iddynt a sicrhau eu bod yn cael eu dilyn yn gyson.

#### Targed cyffredinol ar gyfer gwelliant:

Gweithio gyda phartneriaid er mwyn egluro pwy sy'n gyfrifol am bobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i lety diogel awdurdod lleol tra bôn't yn aros am rywun i'w hebrwng o'r llys, cyhoeddi canllawiau priodol ynglŷn â'r trefniadau cywir sydd i'w dilyn a chael sicrwydd eu bod wedi eu gweithredu'n effeithiol erbyn 31 Mawrth 2008.

### Argymhelliad 4 HMICA

Bod GLIEM yn sicrhau bod pob Llys Ieuencid wedi gweithredu argymhelliad Ymchwiliad Mubarek ynglŷn â darparu gwybodaeth benodol gyda'r warant cadw yn y ddalfa i'r Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion.

#### Ymateb GLIEM

- Mae GLIEM yn derbyn, er bod canllawiau mewnol clir wedi eu dosbarthu i'r llysoedd ynglŷn â'r dogfennau a ddylai gael eu hanfon gyda gwarantau cadw yn y ddalfa, fel y nodwyd yn Adroddiad HMICA, nid yw pob un o'r dogfennau yn cael eu trosglwyddo gyda'r carcharor i'r carchar ym mhob achos.
- Mae GLIEM yn rhoi sylw i'r mater hwn yn dilyn Adroddiad Ymchwiliad Mubarek ac yn gweithio gyda chontractwyr hebrwng a charchardai er mwyn canfod diffygion y system a gweld beth y gellir ei wneud er mwyn sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hanfon gyda'r warant cadw yn y ddalfa.

#### Targed cyffredinol ar gyfer gwelliant:

- Gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion er mwyn sefydlu protocol ar gyfer darparu dogfennau sydd i'w hanfon gyda'r warant cadw yn y ddalfa a chyhoeddi'r protocol hwn erbyn 30 Mehefin 2007.
- Sicrhau bod y dogfennau y mae ar y carchar eu hangen er mwyn gwneud asesiadau risg ar gyfer carcharorion pan fyddant yn cyrraedd y carchar yn cael eu hanfon gyda'r warant cadw yn y ddalfa erbyn 31 Rhagfyr 2007.

## Argymhelliad 5 HMICA

Bod GLIEM yn sicrhau bod pob Llys Ieuentid yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi Diogelu Pobl ac Eiddo (*Safe and Secure*).

### Ymateb GLIEM

- Mae GLIEM yn cydnabod pwysigrwydd canfod a lleihau risgiau sy'n ymwneud â diogelwch pobl ac eiddo, yn enwedig mewn Llysoedd Ieuentid a chyda'r cyfleusterau cysylltiedig. Byddwn yn parhau i fonitro ac asesu risgiau ac, o fewn cyfyngiadau ariannol a gweithredol y busnes, yn gweithredu er mwyn lleihau neu ddileu'r risgiau hynny.

### Targed cyffredinol ar gyfer gwelliant:

Gweithredu gofynion *Safe & Secure* yn llawn ym mhob llys erbyn 31 Rhagfyr 2007.



# Atodiad B

## Fframwaith a methodoleg yr arolygiad

Datblygwyd Fframwaith yr Arolygiad o'r pedwar prif bennawd sydd yn y Canllawiau Arferion Da: Ymgysylltu â throseddwyr a'u teuluoedd; Amgylchedd y llys; Gwneud y Llys Ieuencid yn fwy agored; ac Adborth i ddedfrydwyr. Cynhwyswyd maen prawf ychwanegol yn ymwneud â rhoi 'cefnogaeth effeithiol i'r Llys Ieuencid' er mwyn sicrhau nad oedd y strwythurau ategol, gan gynnwys diogelwch pobl ac eiddo, cyfathrebu allanol a gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn symud achosion yn eu blaenau, yn cael eu hepgor o'r arolygiad hwn. Gofynnwyd am sylwadau ynglŷn â Fframwaith yr Arolygiad gan grŵp o bobl yr ymgynghorwyd â hwy, gan gynnwys Ynadon Ieuencid a chynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder ieuencid eraill.

Mae rhai o'r penawdau hyn yn ymwneud â meysydd barnwrol, nad ydynt yn rhan o gylch gwaith HMICA (fel y nodwyd yn Neddf Llysoedd 2003). Fodd bynnag, ni fyddai edrych ar yr agweddau anffarnwrol yn unig wedi rhoi llawer o gyfle i ddeall gwir werth ac effaith y Canllawiau Arferion Da. Felly, â chytundeb y farnwriaeth arweiniol, gofynnodd yr Arolygwyr am farn ynadon, Barnwyr Rhanbarth a chynghorwyr cyfreithiol am agweddau penodol ar Ganllawiau Arferion Da'r Llysoedd Ieuencid a'r modd y maent yn cael eu gweithredu. Cyflwynwyd adroddiad ar wahân am safbwyntiau barnwrol i'r Arglwydd Brif Ustus.

## Arolygiad Llysoedd Ieuenctid HMICA 2006

### Swyddogaeth allweddol a meini prawf yr arolygiad

Swyddogaeth allweddol: Mae'r gwaith o weithredu'r Canllawiau Arferion Da a gyhoeddwyd ar gyfer Llysoedd Ieuenctid yn 2001 (bod yn fwy agored, cysylltu'n uniongyrchol â'r troseddwr, adborth am effeithiolrwydd dedfrydau a sefyllfa lai gwrthwynebus) wedi'i gyflawni'n llwyddiannus ac mae Llysoedd Ieuenctid yn darparu amgylchedd sy'n helpu i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

DS: Mae Meini Prawf 1 – 4 (a rhan o 5) wedi eu codi'n uniongyrchol o'r Canllawiau Arferion Da.

Meini Prawf	Dangosyddion	Ffynonellau tystiolaeth
<p><b>1. Ymgysylltu effeithiol â diffynyddion a'u rhieni neu eu gofalwyr</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddir iaith glir yn y llys yn hytrach na geiriau ac ymadroddion cyfreithiol a thechnegol.</li> <li>• Nid yw'r diffynnydd a rhieni/gofalwr yn gwyllo'r gweithdrefnau'n oddefol.</li> <li>• Gwneir cyflwyniadau, ac eglurir y drefn yn glir wrth y diffynnydd a'i riant neu ei ofalwr.</li> <li>• Ceir trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau bod y rhai sydd ag iaith arall ar wahân i Saesneg a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu yn gallu deall y gweithdrefnau a chymryd rhan ynddynt.</li> <li>• Rhoddir cymorth priodol yn y llys i ddiffynyddion sydd heb gynrychiolaeth.</li> <li>• Darperir gwybodaeth ddigonol mewn ffurfiau priodol i ddiffynyddion, gan gynnwys y rhai sydd yn y ddalfa, er mwyn iddynt allu deall y gweithdrefnau a chymryd rhan ynddynt cyn, yn ystod ac ar ôl y gwrandawriad.</li> <li>• Mae rôl pob un o'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gwrandawriad llys yn glir i'r diffynnydd.</li> </ul>	<p>Cyfweliadau gydag ynadon, Barnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon), staff llys a diffynyddion, rhieni neu ofalwyr, cyfweliadau gyda Thimau Troseddau Ieuenctid, gwyllo gweithdrefnau yn ystafell y llys.</p> <p>Twrneiod yr amddiffyniad a Gwasanaeth Erllyn y Goron.</p>

Parhad

Meini Prawf	Dangosyddion	Ffynonellau tystiolaeth
<p><b>2. Cynllun ystafell y llys yn hwyluso cyfathrebu da</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae amgylchedd ffisegol y llys yn meithrin cyfathrebu da – y math o ddodrefn, cynllun a gosodiad y seddi – gan annog rôl weithredol yn hytrach na goddefol gan bawb, gan gynnwys aelodau'r Tîm Troseddau Ieuencid.</li> <li>Mae diffynyddion sydd yn y ddalfa'n gallu cymryd rhan ym mhroses y llys.</li> <li>Mae cyfleusterau fideo a sgriniau ar gael ar gyfer tystion hawdd eu niweidio os oes angen.</li> </ul>	<p>Arsylwi.</p> <p>Cyfweliadau gydag ynadon, Barnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon), staff celloedd a llysoedd, diffynyddion, aelodau'r teulu, staff y Tîm Troseddau Ieuencid a'r wasg. Twrneiod yr amddiffyniad a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Cymorth i Dystion ac asiantaethau gwirfoddol eraill yn cynnig cymorth lleol i dystion a dioddefwyr ifanc.</p> <p>Swyddog Cyswllt yr Heddlu.</p>
